# Cefnogi effeithiolrwydd timau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth gefnogi effeithiolrwydd timau. Mae hyn yn cynnwys cytuno ar rolau a chyfrifoldebau unigol ac ar y cyd mewn timau, cydweithio'n effeithiol fel aelod o dîm, a chyfrannu at effeithiolrwydd, diwylliant a safonau uchel ymarfer proffesiynol y tîm.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael caniatâd a chael gafael ar wybodaeth am dimau, canlyniadau, a gweledigaeth a phwrpas y gweithle
2. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau eich hun ac eraill wrth gyfrannu at ganlyniadau timau ynghyd â gweledigaeth a phwrpas y gweithle
3. cyflawni ymrwymiadau i eraill o fewn y blaenoriaethau gwaith y cytunwyd arnynt
4. cyfrannu at gydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau er mwyn dangos parch a gwerthfawrogiad at eraill
5. cyfrannu at ddiwylliant o ddidwylledd, cydgefnogaeth, uniondeb a llesiant yn y gweithle
6. cyfrannu at fodelu ymarfer proffesiynol
7. defnyddio dulliau cyfathrebu proffesiynol effeithiol yn y gweithle
8. cyfrannu at rannu syniadau, safbwyntiau a phryderon i weithio’n well mewn tîm
9. gweithio mewn partneriaeth i reoli deinameg grŵp, datrys gwrthdaro a dod o hyd i atebion
10. ymarfer hunanofal, rheoleiddio eich emosiynau a datblygu gwytnwch
11. rhoi gwybod i eraill am gynnydd a wnaed at derfynau amser ac ymrwymiadau
12. chwilio am gyfleoedd i rannu eich gwybodaeth a’ch sgiliau gydag eraill
13. cyfrannu at gofnodion ac adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer cefnogi effeithiolrwydd timau
14. myfyrio ar sut y gwnaethoch gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i gefnogi effeithiolrwydd timau, gydag adborth gan eraill

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae cael gafael ar wybodaeth am dimau, canlyniadau, a gweledigaeth a phwrpas y gweithle
2. pwysigrwydd cytuno ar rolau a chyfrifoldebau unigol ac ar y cyd mewn timau
3. sut mae cyfrannu at ddiwylliant o ddidwylledd, cydgefnogaeth, uniondeb a llesiant yn y tîm
4. pwysigrwydd safonau ymarfer proffesiynol uchel
5. pwysigrwydd arweinyddiaeth ar bob lefel yn y gweithle
6. sut mae cyfrannu at werthusiadau tîm a'r gweithle
7. sut mae ymgysylltu ag aelodau’r tîm a chyfathrebu'n glir ac yn gynhwysol
8. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar gefnogi effeithiolrwydd timau
9. ffactorau sy’n creu amgylcheddau diogel ac sy’n annog rhannu syniadau a heriau
10. pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol a deall safbwyntiau aelodau’r tîm
11. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth weithio gydag aelodau’r tîm
12. yr egwyddorion sy'n sail i weithio'n effeithiol mewn tîm
13. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gyfrannu at ddiwylliant tîm a gwaith tîm
14. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag aelodau’r tîm
15. dulliau o ryngweithio a sut gallant effeithio ar waith tîm
16. dylanwad diwylliant, cefndir ac ysbrydolrwydd ar y ffordd rydych yn gweithio gydag aelodau’r tîm
17. sut mae ymateb i faterion a phryderon a allai godi rhwng aelodau’r tîm
18. pwysigrwydd rhoi gwybod i aelodau perthnasol o’r tîm pan nad ydych chi’n gallu cadw at derfynau amser ac ymrwymiadau
19. technegau i gefnogi hunanofal, rheoleiddio emosiynol a gwytnwch yn wyneb rhwystrau
20. sut mae cyfrannu at natur broffesiynol y timau
21. y mathau o ddyfeisiau ac adnoddau digidol a all gefnogi effeithiolrwydd timau
22. y cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen i gefnogi effeithiolrwydd timau
23. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer cefnogi effeithiolrwydd timau
24. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth,

cynhwysiant a hawliau wrth gefnogi effeithiolrwydd timau
25. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gefnogi effeithiolrwydd timau
26. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth gefnogi effeithiolrwydd timau, a sut i fynd i'r afael â hyn
27. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth gefnogi effeithiolrwydd timau

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Cefnogi effeithiolrwydd timau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD26 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Effeithiolrwydd, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |